

Rhoi organau a meinweoedd

Atebion i'ch cwestiynau



Contents

Cyflwyniad

Beth yw rhoi organau?	4
Pam mae angen mwy fyth o roddwyr?	5
Pa organau a ellir eu trawsblannu?	5
A allwch chi roi organau a chithau'n dal yn fyw?	5
Beth yw rhoi meinweoedd?	6

Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Beth yw Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?	7
Sut wyf fi'n cofrestru fy mhenderfyniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?	7
Pam fod ymuno â'r gofrestr mor bwysig?	8
Pam mae angen i mi wneud penderfyniad ynglŷn â bod yn rhoddwr?	8
A allaf fi gytuno i roi rhai organau ond dim rhai eraill?	8
A allaf fi fod yn rhoddwr os oes gen i gyflwr meddygol yn barod?	9
Nid wyf yn gallu rhoi gwaed. A allaf fi roi organau?	9
A yw oedran yn rhwystyr rhag bod yn rhoddwr organau?	9
Rwyf yn credu bod rhoi organau yn mynd yn groes i fy nghrefydd	10
A fydd cerdyn rhoddwr yn cael ei anfon ataf ar ôl i mi gofrestru?	10
A fydd angen i mi gario cerdyn rhoddwr os byddaf yn cofrestru?	10

Newid eich meddwl

Beth ddylwn ei wneud os nad wyf yn siŵr a wyf wedi cofrestru?	11
Sut allaf fi wirio neu ddiweddarau fy manylion ar y gofrestr?	11
A gaf fi newid fy meddwl?	11
Beth fydd yn digwydd oes oedd fy rhieni, gwarcheidwaid neu rywun â chyfrifoldeb rhiant drosod wedi fy nghofrestru pan oeddwn yn ifanc heb i mi wybod?	12
A fydd fy manylion yn cael eu rhoi i sefydliadau eraill?	13

Trafod rhoi organau â'ch teulu

Pam mae angen i mi drafod fy mhenderfyniad i fod yn rhoddwr ar ôl fy marwolaeth â fy nheulu	14
Beth fydd yn digwydd os nad yw fy mherthnasau'n cefnogi fy mhenderfyniad?	14
Beth os nad oes gen i deulu na pherthnasau eraill?	14
Beth yw perthynas gymhwysol (neu berthynas agosaf yn yr Alban)?	15
A oes angen i mi ysgrifennu am fy mhenderfyniad i roi organau yn fy ewyllys?	15
Mae fy mherthynas eisïau bod yn rhoddwr. Beth ddylwn ei wneud pan fydd yn marw?	15

Pan fydd organau'n cael eu rhoi

A fydd organau pobl ar y gofrestr yn cael eu defnyddio bob tro?	16
A allaf fi fod yn siŵr y bydd meddygon yn ceisio fy achub os wyf wedi fy nghofrestru fel rhoddwr posibl?	16
Sut fyddant yn gwybod yn bendant eich bod wedi marw?	16
A allwch chi gael eich cadw'n fyw gan beiriannau?	17
A yw rhoddwyr yn cael eu sgrinio i wirio a oes ganddynt glefydau trosglwyddadwy?	17
A yw rhoi'n anffurfio'r corff?	18
A fydd modd i'r teulu weld y corff ar ôl rhoi organau?	18
A oes yn rhaid i deulu'r rhoddwr dalu'r gost o roi?	18
A all pobl brynu neu werthu organau?	18
A yw bod yn rhoddwr yn achosi oedi i drefniadau angladdau?	18

Derbynwyr trawsblaniadau

Pwy fyddai'n cael fy organau a fy meinweoedd pe bawn yn penderfynu bod yn rhoddwr?	19
A allaf fi gytuno i roi i rai pobl ar ôl i mi farw ac nid i eraill?	19
A allai'r organau a'r meinweoedd y byddwn yn eu rhoi gael eu rhoi i glaf preifat?	19
A allai fy organau neu feinweoedd gael eu rhoi i rywun mewn gwlad arall?	20
A fyddai teulu'r rhoddwr yn cael gwybod pwy oedd y derbynnydd?	20

Organau ar gyfer ymchwil

A allai organau neu feinweoedd sy'n cael eu tynnu ar gyfer eu trawsblannu gael eu defnyddio i ddibenion ymchwil?	21
A allaf fi adael fy nghorff i addysg feddygol neu ymchwil ar ôl i mi roi fy organau?	21

Rhoi gwaed

Mi hoffwn roi gwaed, beth ddylwn ei wneud?	23
--	----

Rhoi bôn-gelloedd

Beth yw rhoi bôn-gelloedd?	24
Sut wyf yn cofrestru i roi bôn-gelloedd?	24
Beth yw Cofrestrfa Rhoi Mêr Esgyrn Prydain?	25
Sut allaf fi gael rhagor o wybodaeth?	25

Cyflwyniad

Trwy roi eich organau a / neu feinweoedd ar ôl i chi farw, byddwch yn helpu i achub a gweddnwid bywydau pobl eraill.

Mae penderfynu a ydych chi am fod yn rhoddwr yn beth personol iawn ac mae'n bwysig bod pawb yn gwneud eu penderfyniad eu hunain. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys atebion i'r cwestiynau a ofynnir amlaf am roi organau a meinweoedd ac mae'n ceisio lleddfu unrhyw amheuan sydd gennych chi.

Os ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy fod yn rhoddwr organau neu feinweoedd ar ôl eich marwolaeth, mae dau gam pwysig y mae angen i chi eu cymryd os ydych chi'n byw yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon:

- Ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG
- Dweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau eich bod wedi ymuno â'r gofrestr a'ch bod eisiau bod yn rhoddwr fel y gallant gefnogi eich penderfyniad.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, mae system ddeddfwriaethol wahanol yn bod. Felly, os na fyddwch yn cofrestru penderfyniad i roi (optio i mewn), nac yn cofrestru nad ydych eisiau rhoi (optio allan), cymerir eich bod wedi rhoi caniatâd i roi. Mae'n dal yn bwysig iawn os ydych chi'n byw yng Nghymru i ddweud wrth eich teulu am eich penderfyniad fel na fydd yn syndod iddynt ar adeg eich marwolaeth ac fel y gallant gefnogi eich penderfyniad.

Beth yw rhoi organau?

Rhoi organau yw rhoi organ i rywun arall sydd angen trawsblaniad. Bydd hyn yn gwella'n sylweddol siawns o fywyd y person a fydd yn cael organ wedi'i thrawsblannu neu gall achub eu bywyd. Mae rhoi organau'n weithred eithriadol o hael ac mae'n achub miloedd o fywydau yn y DU bob blwyddyn. Er mwyn sicrhau bod organau'n ddiogel i'w defnyddio, bydd hanes meddygol a ffordd o fyw'r rhoddwr yn cael eu hasesu ar adeg y rhoi.

Pam mae angen mwy fyth o roddwyr?

Mae tua 5,000 o bobl yn marw yn y DU bob blwyddyn mewn amgylchiadau lle gallant fod yn rhoddwyr. Gan fod yn rhaid trawsblannu organau'n fuan iawn ar ôl y farwolaeth dim ond pobl sydd wedi marw mewn ysbyty a all roi. Fel arfer bydd y cleifion hyn ar beiriant anadlu yn yr Uned Gofal Dwys neu'r Adran Achosion Brys, a hynny fel arfer o ganlyniad i waedlif ar yr ymennydd, damwain ddifrifol, neu strôc. Mae nifer y bobl, yn enwedig pobl iau, sy'n marw yn yr amgylchiadau hyn yn gostwng, yn bennaf oherwydd gwelliannau calonogol mewn diogelwch ar y ffyrdd, datblygiadau meddygol yn y triniaethau sydd ar gael i gleifion, a gwelliannau sy'n atal strociau ymhlith pobl iau. Rheswm arall am y prinder organau yw nad yw llawer o bobl wedi cofnodi eu penderfyniad i fod yn rhoddwr ar ôl iddynt farw ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG neu, yr un mor bwysig, wedi trafod eu penderfyniad i fod yn rhoddwr â'u teuluoedd. Mae teuluoedd yn fwy tebygol o gefnogi rhoi organau os ydynt yn gwybod mai dyna oedd dymuniad eu perthynas.

Pa organau a ellir eu trawsblannu?

Gallwch roi llawer o organau i helpu rhai sydd angen trawsblaniad. Mae bywydau llawer o bobl yn cael eu hachub neu eu gweddnewid gan drawsblaniad aren, calon, iau, ysgyfant, pancreas neu goluddyn bach. Mae technegau meddygol yn gwella drwy'r amser a chyn hir efallai y bydd modd gwneud mwy o drawsblaniadau i helpu mwy fyth o bobl. Yn ogystal â rhoi organau, gallwch hefyd ddewis rhoi meinweoedd ar ôl i chi farw. Gellir rhoi croen, tendonau, esgyrn, falfiau'r galon, cartilag a llygaid i drwsio neu ailadeiladu cyrff a gwella bywydau miloedd o bobl.

A allwch chi roi organau a chithau'n dal yn fyw?

Lledled y DU, mae tua 1,000 o bobl bob blwyddyn yn rhoi organau a hwythau'n dal yn fyw i berthynas, ffrind neu rywun nad ydynt yn ei adnabod. Yr organ sy'n cael ei rhoi amlaf gan berson byw yw aren. Gall person iach fyw bywyd normal gyda dim ond un aren sy'n gweithio ac felly gall roi'r llall i rywun sydd angen trawsblaniad aren. Gellir hefyd trawsblannu rhan o'r iau (afu) o roddwr byw i helpu rhywun sydd angen trawsblaniad iau.

Trawsblaniad llwyddiannus o roddwr byw yw'r opsiwn orau sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl â chlefyd yr aren a dyna'r siawns gorau o lwyddiant i'r derbynnydd gan fod arenau gan roddwr byw fel arfer yn para'n hwy nag arenau gan rywun sydd wedi marw. Yn achos pob math o drawsblaniadau gan roddwyr byw bydd yn rhaid ystyried y risg i'r rhoddwr yn ofalus iawn. Cyn y gall trawsblaniad rhoddwr byw fynd ymlaen mae rheoliadau caeth y mae'n rhaid eu dilyn a phroses drylwyr o asesu a thrafod.

Mae pob trawsblaniad rhoddwr byw yn y DU yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA). Cewch ragor o fanylion am waith yr HTA yn www.hta.gov.uk. Am ragor o wybodaeth am roi gan roddwyr byw a sut i gysylltu â'ch canolfan drawsblannu achosaf, ewch i'n gwefan www.organdonation.nhs.uk/livingdonation neu, os ydych chi'n byw yn yr Alban, ewch i www.livingdonationscotland.org.

Beth yw rhoi meinweoedd?

Mae meinweoedd dynol yn cynnwys celloedd yn y corff sy'n debyg o ran ymddangosiad ac sydd â'r un swyddogaeth. Mae sawl math o feinwe fel croen, esgyrn, tendonau, llygaid, falfiau'r galon a rhydweli. Gall rhoi meinweoedd wella ansawdd bywyd pobl eraill yn sylweddol iawn. Gall cymaint â 50 o bobl gael eu helpu trwy rodd gan un person.

Gellir rhoi llawer o fathau o feinweoedd ar ôl marwolaeth gan gynnwys croen, tendonau, esgyrn, falfiau'r galon a llygaid i helpu i drwsio neu ailadeiladu bywydau miloedd o bobl sydd wedi'u heffeithio gan glefydau, anafiadau neu nam geni.

Mae hefyd yn bosibl rhoi asgwrn neu groenyn amniotig (rhan o'r brych) mewn rhai ysbytai a chithau'n fyw, yn ystod llawdriniaeth ar y glun neu doriad cesaraidd dewisol.

Yn wahanol i roi organau, nid oes yn rhaid i chi farw mewn uned gofal dwys neu adran achosion brys mewn ysbyty i roi meinweoedd ar ôl marw. Gall bron bawb gael eu hystyried fel rhoddwyr meinweoedd, a rhaid i hynny ddiwydd o fewn 24 i 48 awr ar ôl y farwolaeth. Er mwyn sicrhau bod meinweoedd a roddir yn ddiogel, bydd hanes meddygol a ffordd o fyw'r rhoddwr yn cael ei hasesu ar adeg y rhoi.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am roi meinweoedd, ewch i'n gwefan yn www.nhsbt.nhs.uk/tissue-donation.

Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Beth yw Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?

Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn gronfa ddata gyfrinachol a diogel sy'n cofnodi penderfyniad pawb sydd wedi penderfynu'r hyn maent am ei wneud â'u horganau a'u meinweoedd ar ôl iddynt farw. Dyma hefyd y gronfa ddata y bydd staff meddygol yn ymgynghori â hi i weld a yw person wedi penderfynu bod yn rhoddwr os byddant yn marw mewn amgylchiadau lle byddant yn gallu rhoi. Os hoffech chi fod yn rhoddwr ar ôl eich marwolaeth, ymunwch â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG a thrafodwch eich penderfyniad â'ch perthnasau agos.

Sut wyf fi'n cofrestru fy mhenderfyniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?

Mae sawl ffordd o ymuno â'r gofrestr:

- Ar-lein yn www.organdonation.nhs.uk
- Trwy ffonio **0300 123 23 23**
- Trwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur

Pan fyddwch yn cofrestru, gallwch ddewis rhoi pob un neu rai'n unig o'ch organau a meinweoedd.

Dim ond dwy ffordd sydd o ymuno â'r gofrestr i BEIDIO â rhoi:

- Ar-lein yn www.organdonation.nhs.uk
- Trwy ffonio **0300 123 23 23**

Gallwch hefyd gofrestru i beidio bod yn rhoddwr trwy wefan Scottish Organ Donation (www.organdonationscotland.org), gwefan Rhoi Organau Cymru (www.organdonationwales.org) a gwefan Northern Ireland Organ Donation (www.organdonationni.info).

Mae'n bwysig eich bod yn trafod eich penderfyniad â'ch teulu i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod am eich penderfyniad.

Bu newid i'r rheolau rhoi organau yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2015. Os nad ydych chi wedi cofrestru penderfyniad i optio i mewn neu optio allan, byddwch yn cael eich trin fel nad oes gennych chi wrthwynebiad i fod yn rhoddwr organau. Gelwir hyn yn gydsyniad tybiedig. Am ragor o wybodaeth ewch i www.organdonationwales.org

Pam mae ymuno â'r gofrestr mor bwysig?

Mae angen mawr i fwy o bobl gytuno i roi: yn anffodus mae tua thri o bobl yn marw yn y DU bob dydd am fod angen organ newydd arnynt. Bydd cofnodi eich penderfyniad ar y gofrestr yn helpu gweithwyr meddygol proffesiynol i barchu eich penderfyniad i roi pe bydech yn marw mewn amgylchiadau lle byddai modd i chi roi. Mae hyn hefyd yn dangos i'ch teulu eich bod wedi gwneud penderfyniad. Mae hyn yn fater pwysig gan y byddwn yn cysylltu â'ch teulu bob amser cyn cymryd organ.

Pam mae angen i mi wneud penderfyniad ynglŷn â bod yn rhoddwr?

Yn y DU, ni fydd organau a meinweoedd gan roddwr posibl un cael eu defnyddio heb gydsyniad / awdurdodaeth, naill ai gan yr unigolyn, cynrychiolydd a enwebwyd / penodwyd, aelod o'r teulu, neu gydsyniad tybiedig os ydych chi'n byw yng Nghymru. Mae rhoi eich enw ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn ei gwneud yn haws i'r GIG wybod eich penderfyniad ac i'r rhai agosaf atoch ei gefnogi. Os na fydd eich penderfyniad wedi'i gofnodi, gofynnir eich perthynas agosaf wneud penderfyniad ar eich rhan. Dyma pam mae mor bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch teulu am eich penderfyniad i roi organau.

A allaf fi roi rhai organau ond dim rhai eraill?

Gallwch. Os byddwch yn dewis ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, yna byddwch yn nodi pa organau a / neu feinweoedd yr hoffech eu rhoi. Yr unig beth sydd angen ei wneud yw ticio'r blychau priodol ar y ffurflen. Peidiwch ag anghofio rhoi gwybod i'ch teulu am eich penderfyniad.

A allaf fi fod yn rhoddwr os oes gen i gyflwr meddygol yn barod?

Gallwch, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Nid yw salwch neu gyflwr meddygol o reidrwydd yn atal unigolyn rhag bod yn rhoddwr organau neu feinweoedd. Bydd y penderfyniad a yw rhai neu bob o'r organau neu'r meinweoedd yn addas ar gyfer eu trawsblannu'n cael ei wneud gan arbenigwr meddygol ar adeg y rhoi, ar ôl ystyried eich hanes meddygol, teithio a chymdeithasol.

Ychydig iawn o gyflyrau a geir lle mae rhoi organau'n cael ei wrthod yn gyfan gwbl. Ni all person fod yn rhoddwr organau os yw wedi cael, neu os oes amheuaeth eu bod wedi cael, clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) neu glefyd firws Ebola. Mewn achosion prin, mae organau rhoddwyr â HIV neu hepatitis C wedi cael eu defnyddio i helpu eraill â'r un cyflyrau. Bydd pob rhoddwr yn cael archwiliad manwl i ddiogelu rhag unrhyw heintiau nad oedd wedi'u canfod yn y gorffennol.

Nid wyf yn gallu rhoi gwaed. A allaf fi roi organau?

Gallwch, hyd yn oed os na allwch roi gwaed mi allwch fod yn rhoddwr organau posibl. Efallai bod rhesymau penodol pan nad oeddech yn gallu rhoi gwaed fel eich bod wedi cael trallwysiad gwaed (neu gynnyrch gwaed) er 1 Ionawr 1980. Neu efallai bod rhesymau pam na allech chi roi gwaed oherwydd eich iechyd ar y pryd. Weithiau gall rhywbeth syml fel annwyd neu feddyginiaeth yr ydych yn ei chymryd eich rhwystro rhag rhoi gwaed. Mae'r penderfyniad a yw rhai neu bob organ neu feinwe'n addas ar gyfer eu trawsblannu'n cael ei wneud bob amser gan arbenigwyr meddygol ar adeg y rhoi, ar ôl ystyried eich hanes meddygol.

A yw oedran yn rhwystr rhag bod yn rhoddwr organau?

Mae rhai rhoddwyr yn eu 70au ac 80au! Fodd bynnag, wrth ystyried organau a meinweoedd ar gyfer eu trawsblannu mae rhai cyfyngiadau oedran. Mae rhoddwyr posibl yn cael eu hasesu'n unigol bob amser i weld a yw eu horganau neu feinweoedd yn addas.

Rwyf yn credu bod rhoi organau'n mynd yn groes i fy nghrefydd.

Mae pob un o brif grefyddau'r DU yn cefnogi'r egwyddor o roi a thrawsblannu organau, ac yn derbyn bod rhoi organau'n ddewis i'r unigolyn. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cynghorydd crefyddol, gofynnwch am un o'n taflenni ffydd (ar gael i'w harchebu yn www.nhsbtleaflets.co.uk) neu ewch i'n gwefan: www.organdonation.nhs.uk/religion.

A fydd cerdyn rhoddwr yn cael ei anfon ataf ar ôl i mi gofrestru?

Bydd. Rydym yn anfon cerdyn rhoddwr at bawb sy'n cofrestru i roi am y tro cyntaf. Os byddwch yn newid eich manylion neu'n ailgofrestru ni fyddwn yn anfon cerdyn newydd atoch. Os ydych chi wedi colli eich cerdyn ac yr hoffech gael un newydd gallwch argraffu eich cerdyn rhoddwr organau eich hun trwy ein gwefan:

www.organdonation.nhs.uk/donor-card.

Neu, gallwch gysylltu â'r llinell Rhoddwyr Organau ar **0300 123 23 23**.

A oes angen i mi gario cerdyn rhoddwr os byddaf yn cofrestru?

Mae cerdyn rhoddwr organau'n ffordd dda i ddangos eich bod wedi ymrwymo i achub bywydau. Gallwch gario eich cerdyn yn eich pwrs neu waled fel arwydd o'ch penderfyniad i helpu eraill. Bydd staff meddygol yn ymgynghori â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG bob amser os gellir defnyddio eich organau i helpu eraill pan fyddwch yn marw. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn hoffi cadw cerdyn i atgoffa'u hunain o'u penderfyniad i roi, i helpu i ddechrau sgwrs â theulu a ffrindiau am eu penderfyniad, neu i annog eraill i feddwl am roi organau.

Newid eich meddwl

Beth ddylwn i wneud os nad wyf yn siŵr a wyf wedi cofrestru?

Gallwch wirio a ydych wedi cofrestru trwy:

- ffonio **0300 123 23 23**, neu
- ysgrifennu atom yn **FREEPOST RRZKSHUX-SBCK, NHSBT, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bristol BS34 8RR**. (Noder, bydd yn rhaid i chi roi eich enw llawn, dyddiad geni, a chyfeiriad i gael yr wybodaeth hon. Dylech hefyd roi rhif ffôn cyswllt.)

Sut allaf fi wirio neu ddiweddarau fy manylion ar y gofrestr?

Gallwch ddiweddarau eich manylion a / neu newid eich penderfyniad i roi:

- ar-lein yn **www.organdonation.nhs.uk**
- dros y ffôn ar **0300 123 23 23**
- trwy ysgrifennu at: **FREEPOST RRZKSHUX-SBCK, NHSBT, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bristol BS34 8RR**. (Noder, bydd yn rhaid i chi roi eich enw llawn, dyddiad geni, a chyfeiriad i gael yr wybodaeth hon. Dylech hefyd roi rhif ffôn cyswllt.)

A allaf fi newid fy meddwl?

Gallwch. Gallwch newid eich penderfyniad, neu dynnu eich enw oddi ar y gofrestr:

- ar-lein yn **www.organdonation.nhs.uk**
- dros y ffôn ar **0300 123 23 23**
- trwy ysgrifennu at: **FREEPOST RRZKSHUX-SBCK, NHSBT, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bristol BS34 8RR**. (Noder, bydd yn rhaid i chi roi eich enw llawn, dyddiad geni, a chyfeiriad i gael yr wybodaeth hon. Dylech hefyd roi rhif ffôn cyswllt.)

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ac yn dymuno tynnu eich cofrestriad yn ôl, dim ond ar y wefan y gallwch wneud hynny (www.organdonation.nhs.uk) neu'n ysgrifenedig.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn tynnu eich cofrestriad yn ôl yna tybir eich bod yn cydsynio i roi organau. Os ydych chi'n bendant nad ydych chi eisiau bod yn rhoddwr organau bydd angen i chi gofrestru penderfyniad i 'optio allan', trwy ein gwefan, (www.organdonationwales.org) neu trwy ffonio **0300 123 23 23**.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael i'ch teulu wybod eich bod wedi newid eich penderfyniad.

Beth fydd yn digwydd os oedd fy rhieni, gwarcheidwaid neu rywun â chyfrifoldeb rhiant drosof wedi fy nghofrestru pan oeddwn yn ifanc heb i mi wybod?

I wybod os yw hynny wedi digwydd, ac i newid unrhyw fanylion os bydd angen, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn www.organdonation.nhs.uk/register. Neu gallwch ffonio **0300 123 23 23** neu ysgrifennu atom yn

FREEPOST RRZKSHUX- SBCK, NHSBT, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bristol BS34 8RR a byddwn yn gwirio'r gofrestr ar eich rhan neu'n newid eich manylion os bydd angen. Dim ond staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sydd â mynediad uniongyrchol at y data.

Os oedd eich enw wedi'i ychwanegu at y gofrestr pan oeddech yn blentyn a'ch bod yn marw mewn amgylchiadau lle gellid ystyried rhoi organau, bydd y staff meddygol sy'n gysylltiedig â'r achos yn cael eu hysbysu o'r angen i gysylltu â'ch perthynas agosaf i drafod eich penderfyniad diwethaf sy'n hysbys a chael cefnogaeth briodol cyn y gall organau gael eu rhoi.

Yng Nghymru, pan fyddwch yn cyrraedd eich pen blwydd yn 18 oed byddwch yn cael llythyr sy'n eich hysbysu os na fyddwch yn cofnodi penderfyniad i optio i mewn neu allan o roi organau y tybir eich bod wedi rhoi cydsyniad.

A fydd fy manylion yn cael eu rhoi i sefydliadau eraill?

Na fyddant. Bydd yr wybodaeth a roddir gennych yn cael ei defnyddio gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG yn unig i gofnodi eich penderfyniad, a gan weithwyr meddygol proffesiynol i allu gweld eich penderfyniad mewn amgylchiadau os ydych chi wedi marw neu fod disgwyl i chi farw'n fuan. Ni fydd eich manylion personol yn cael eu trosglwyddo i unrhyw unigolyn na sefydliad heb gael eich cydsyniad penodol. Gall eich data gael ei drin ar ein rhan gan ein cyflenwyr a / neu mewn gwlad nad yw fel arfer yn dod o fewn cyfraith diogelu data'r UE. Os felly, byddwn yn sicrhau y bydd y data'n cael ei ddiogelu'n unol â gofynion yr UE. Cewch ragor o wybodaeth yn www.nhsbt.nhs.uk **www.nhsbt.nhs.uk**.

Trafod rhoi organau â'ch teulu

Pam mae angen i mi drafod fy mhenderfyniad i fod yn rhoddwr ar ôl fy marwolaeth â fy nheulu?

Pe baech yn marw mewn amgylchiadau sy'n golygu y gallai eich organau gael eu rhoi, bydd y meddygon sy'n gofalu amdanoch chi a'r nyrsys sy'n arbenigo mewn rhoi organau yn trafod rhoi organau â'ch perthnasau agosaf fel rhan o'r drafodaeth diwedd oes. Bydd y tîm meddygol yn cael gweld Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG i gael gwybod beth oedd eich penderfyniad ar roi organau cyn trafod y mater â'ch teulu. Trwy ddweud wrth eich teulu eich bod eisiau bod yn rhoddwr organau ar ôl eich marwolaeth ni fydd yn rhaid iddynt hwy wneud y penderfyniad ar adeg mor anodd. Felly, rhannwch eich penderfyniad â hwy, a gadewch iddynt wybod eich bod eisiau bod yn rhoddwr organau.

Beth fydd yn digwydd os nad yw fy mherthnasau'n cefnogi fy mhenderfyniad?

Gwyddom y bydd teuluoedd yn cytuno â rhoi yn y rhan fwyaf o achosion os ydynt yn gwybod mai dyna oedd penderfyniad eu hanwyliaid. Os bydd y teulu, neu'r rhai agosaf at y person sydd wedi marw, yn gwrthwynebu rhoi organau hyd yn oed os yw'r sawl sydd wedi marw wedi rhoi caniatâd penodol (naill ai trwy ymuno â'r gofrestr neu trwy gario cerdyn rhoddwyr) neu os bydd cydsyniad tybiedig yn gymwys, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn trafod y mater mewn modd sensitif â'r teulu. Byddant yn cael eu hannog i dderbyn penderfyniad eu hanwyliad a dywedir wrthynt nad oes hawl cyfreithiol ganddynt i wrthod na gwyrddroi'r penderfyniad hwnnw. Mae'n bosibl, er hynny, y bydd achosion lle byddai'n amhriodol i fwrw ymlaen i roi os byddai hynny'n achosi trallod i'r teulu.

Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i deulu na pherthnasau eraill?

Gallwch ymuno â'r rhestr yr un fath ond, i gyflawni eich penderfyniad i roi, bydd angen i weithwyr iechyd proffesiynol siarad â rhywun arall

ar adeg eich marwolaeth a all eu cynghori ar eich hanes meddygol a chymdeithasol. Gall y person hwn fod yn Feddyg Teulu, ond fe'ch cynghorir hefyd i ddweud wrth y person agosaf atoch mewn bywyd, fel ffrind neu gydweithiwr, am eich penderfyniad.

Beth yw perthynas gymhwysol (neu berthynas agosaf yn yr Alban)?

Os na fydd penderfyniad y sawl sydd wedi marw'n hysbys, mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol yn gosod y bobl a oedd â pherthynas â hwy mewn trefn. Mae hyn yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd yn gofyn am ganiatâd i gael organau i wybod pwy i gysylltu â hwy, ac ym mha drefn. Mae hyn yn amrywio o wŷr neu wraig neu bartner (gan gynnwys partner sifil neu o'r un rhyw): rhiant neu blentyn; brawd neu chwaer; perthnasau eraill; i hen ffrind.

A oes angen i mi ysgrifennu am fy mhenderfyniad i roi organau yn fy ewyllys?

Nag oes. Erbyn i'ch ewyllys gael ei darllen mae'n debyg y bydd yn rhy hwyr o lawer i allu rhoi'ch organau. Felly, mae'n bwysig gadael i'ch teulu a'ch ffrindiau i wybod eich bod yn dymuno bod yn rhoddwr organau.

Mae fy mherthynas eisiau bod yn rhoddwr. Beth ddylwn ei wneud pan fyddant yn marw?

Os byddai eich perthynas yn marw mewn amgylchiadau lle gall fod yn bosibl rhoi organau, bydd y meddygon sy'n gofalu am y claf a'r nyrsys sy'n arbenigo mewn rhoi organau'n trafod yr opsiwn o roi organau ag aelodau'r teulu. Os yw trawsblaniadau am fod yn llwyddiannus, rhaid i organau gael eu trawsblannu'n fuan iawn ar ôl y farwolaeth, felly dim ond rhywun sydd wedi marw mewn ysbyty all roi organau. Os gwyddoch chi eu bod wedi gwneud penderfyniad i roi, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ystod unrhyw sgysiaid cynllunio ar gyfer diwedd oes.

Pan fydd organau'n cael eu rhoi

A fydd organau pobl ar y gofrestr yn eu defnyddio bob tro?

Na fyddant. Dim ond ychydig iawn o bobl fydd yn marw mewn amgylchiadau lle byddant yn gallu rhoi eu horganau. Er mwyn i drawsblaniadau fod yn llwyddiannus, rhaid i organau gael eu trawsblannu'n fuan iawn ar ôl y farwolaeth felly dim ond pobl sydd wedi marw mewn ysbyty mewn amgylchiadau penodol all roi. Fel arfer bydd y cleifion hyn ar beiriant anadlu yn yr uned gofal dwys neu adran achosion brys, a bod penderfyniad wedi'i wneud bod yr ymennydd yn farw neu eu bod wedi marw er gwaethaf triniaeth feddygol – fel arfer o ganlyniad i waedlif ar yr ymennydd, damwain ddifrifol, neu strôc. Dyna pam ein bod am weld cymaint o bobl â phosibl yn ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ac i roi gwybod i'w teulu am eu penderfyniad.

A allaf fi fod yn siŵr y bydd meddygon yn ceisio fy achub os wyf wedi fy nghofrestru fel rhoddwr posibl?

Gallwch. Mae dyletswydd ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol i achub eich bywyd yn y lle cyntaf. Os, er gwaethaf pob ymdrech, bod marwolaeth yn anorfod, bydd rhoi organau a meinweoedd yn cael ei ystyried wrth i drafodaethau diwedd oes ddechrau gyda'ch teulu. Dim ond ar ôl i gynllunio diwedd oes ddechrau y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn edrych ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ac y bydd y posibilrwydd o roi organau'n cael ei drafod â theulu'r claf.

Sut fyddant yn gwybod yn bendant eich bod wedi marw?

Mae "A code of practice for the diagnosis and confirmation of death" gan Academi Colegau Meddygol Brenhinol yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer gwneud diagnosis a chadarnhau marwolaeth yn y DU.

www.aomrc.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Code_Practice_Confirmation_Diagnosis_Death_1008-4.pdf

Mae'r cod yn helpu'r sawl sy'n gofalu am bobl sy'n marw, ac mae'n cynnwys meini prawf diogel, amserol a chyson ar gyfer gwneud diagnosis o farwolaeth. Mewn ysbytai yr amgylchiadau mwyaf cyffredin ar gyfer diagnosis a chadarnhad o farwolaeth yw ar ôl i weithrediad y galon / ysgyfaint ddarfod. Neu, yn yr uned gofal dwys, bydd diagnosis a chadarnhad o farwolaeth weithiau'n cael ei wneud mewn cleifion sydd mewn coma na ellir ei wella sy'n cael ymyriadau artiffisial sy'n cynnal gweithrediad y galon / ysgyfaint yn niffyg gallu'r claf i anadlu ar ei ben ei hun. Mae canllawiau ychwanegol i wneud y diagnosis hwn mewn babanod iau na deufis oed wedi'u paratoi gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

www.rcpch.ac.uk/improving-child-health/clinical-guidelines-and-standards/published-rcpch/death-neurological-criteria

Heblaw am roddion byw, dim ond ar ôl i berson farw y gellir tynnu organau a / neu feinweoedd i'w trawsblannu. Mae marwolaeth yn cael ei chadarnhau gan feddygon sy'n gwbl annibynnol o'r tîm trawsblannu ac mae'n cael ei wneud yn yr un ffordd yn union ag y mae yn achos pobl sy'n rhoi organau a rhai nad ydynt.

A allwch chi gael eich cadw'n fyw gan beiriannau?

Na allwch, dim os yw marwolaeth coesyn yr ymennydd wedi'i gadarnhau gan fod hyn yn golygu bod yr unigolyn wedi marw. Yn yr achosion hyn, bydd peiriant anadlu'n parhau i gyflenwi'r corff ag ocsigen a bydd y galon yn parhau i guro i gylchredeg y gwaed. Mae hyn yn cadw'r organau mewn cyflwr i allu eu trawsblannu. Pan fydd y peiriant anadlu'n cael ei ddiffodd bydd y galon yn rhoi'r gorau i guro ar ôl ychydig funudau.

A yw rhoddwyr yn cael eu sgrinio i wirio a oes ganddynt glefydau trosglwyddadwy?

Ydynt. Mae gwaed yn cael ei gymryd o bob rhoddwr posibl ac mae'n cael ei brofi i wneud yn siŵr nad yw clefydau a firsau trosglwyddadwy fel HIV a hepatitis yn bresennol. Bydd teulu'r rhoddwr posibl yn cael gwybod bod angen cynnal y broses hon.

A yw rhoi'r anffurfio'r corff?

Mae organau a meinweoedd yn cael eu tynnu'n ofalus iawn bob amser a gyda pharch mawr. Mae organau'n cael eu tynnu mewn theatr llawdriniaethau arferol mewn amodau lle mae popeth wedi'u diheintio, gan feddygon arbenigol. Ar ôl tynnu'r organau bydd y toriad yn cael ei gau'n ofalus a'u orchuddio â dresin yn y ffordd arferol.

Gellir tynnu meinweoedd mewn theatr llawdriniaethau, mortiwari neu barlwr angladdau. Mae'r llawdriniaeth yn cael ei gwneud gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd yn sicrhau bod y rhoddwr yn cael ei drin â'r parch a'r urddas mwyaf bob amser. Dim ond yr organau a'r meinweoedd hynny a enwyd gan y rhoddwr neu eu teulu fydd yn cael eu tynnu.

A fydd modd i'r teulu weld y corff ar ôl rhoi organau?

Bydd, wrth gwrs, os mai dyna yw eu dymuniad. Mae teuluoedd yn cael cyfle i dreulio amser â'u hanwyliaid ar ôl y llawdriniaeth os ydynt yn dymuno. Mae trefniadau i weld y corff ar ôl rhoi'r un fath ag yn achos unrhyw farwolaeth.

A oes yn rhaid i deulu'r rhoddwr dalu'r gost o roi?

Nac oes. Ni fydd angen gwneud taliad o gwbl. Mae'r GIG yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â rhoi organau a meinweoedd.

A all pobl brynu neu werthu organau?

Na allant. Mae cyfreithiau trawsblannu yn y DU yn gosod gwaharddiad llwyr ar werthu organau a meinweoedd dynol.

A yw bod yn rhoddwr yn achosi oedi i drefniadau angladdau?

Nac ydy. Mae'r llawdriniaeth i dynnu organau'n cael ei gwneud cyn gynted â phosibl ar ôl y farwolaeth.

Derbynwyr trawsblaniadau

Pwy fyddai'n cael fy organau a fy meinweoedd os byddaf yn penderfynu bod yn rhoddwr?

Mae angen i lawer o elfennau fod yr un fath neu'n debyg iawn i sicrhau bod organau'n cael eu trawsblannu'n llwyddiannus. Mae grŵp gwaed, oedran a phwysau i gyd yn cael eu hystyried. Yn achos trawsblaniadau arennau, y galon a'r iau, ffactor pwysig arall yw'r math o feinwe, sy'n llawer mwy cymhleth na grŵp gwaed. Ceir y canlyniadau gorau os llwyddir i gael pariad perffaith.

Mae rhestr genedlaethol yn cael ei chadw o gleifion sy'n aros am drawsblaniad organau. Gyda rhai organau bydd y rhestr genedlaethol yn helpu i ganfod y claf sydd â'r pariad gorau ar gyfer organ neu'r uned drawsblannu a fydd yn cael cynnig yr organ. Fel arfer, rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion hynny sydd â'r angen mwyaf am drawsblaniad.

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gweithredu rhestr drawsblannu a system dyrannu organau rhoddwyr, 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, Dim ond ar adegau prin y mae modd paru meinweoedd, e.e. ar gyfer maint a'r math o feinwe, ond fel arall maent ar gael i unrhyw glaf sydd wedi'i restru ar gyfer trawsblaniad.

A allaf fi gytuno i roi i rai pobl ar ôl i mi farw ac nid i eraill?

Na allwch. Ni ellir derbyn organau a meinweoedd oni bai eu bod yn cael ei rhoi heb amodau. Ni ellir rhoi amodau mewn telerau o ran pwy fydd yn eu cael. Gallwch, fodd bynnag, ddewis pa organau / meinweoedd yr ydych yn dymuno'u rhoi.

A allai fy organau neu feinweoedd gael eu rhoi i glaf preifat?

Efallai, ond anaml iawn y bydd hynny'n digwydd. Mae cleifion sydd â hawl i gael triniaeth gan y GIG yn cael blaenoriaeth i organau a

roddir. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau lluoedd arfog Ei Mawrhydi sy'n gwasanaethu dramor a chleifion sydd wedi'u cynnwys mewn cytundeb iechyd dwyochrog â'r DU. Byddai cleifion eraill yn cael cynnig organ os nad fyddai cleifion addas ar gael sy'n gymwys i gael triniaeth gan y GIG. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw organ a roddir yn cael ei gwastraffu os oes rhywun arall a all elwa.

Bydd meinweoedd a roddir ar gael i unrhyw ysbty yn y DU lle mae claf eu hangen.

A allai fy organau neu feinweoedd gael eu rhoi i glaf mewn gwlad arall?

Gallant, efallai. Y cytundeb yw os na ellir paru organau â chleifion yn y DU y gallant gael eu cynnig i gleifion mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn yr un modd, gall cleifion yn y DU elwa ar organau a gynigir gan wledydd Ewropeaidd eraill. Mae'r cydweithredu hwn yn cynyddu'r siawns o ddod o hyd i dderbynydd addas, gan sicrhau nad yw organau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu. Gall meinweoedd hefyd gael eu cynnig i gleifion mewn gwledydd eraill.

A fyddai teulu'r rhoddwr yn cael gwybod pwy oedd y derbynydd?

Cedwir cyfrinachedd bob amser, ac eithrio yn achos rhoddwyr byw sydd fel arfer yn adnabod y derbynydd. Os yw teulu rhoddwr yn dymuno hynny, gallant gael rhai manylion fel oedran bras a rhyw'r bobl sydd wedi elwa ar y rhodd. Gall cleifion sy'n cael organau hefyd gael manylion tebyg am eu rhoddwyr. Mae modd hefyd rhoi rhywfaint o wybodaeth am y derbynydd i deulu'r rhoddwr yn achos rhai mathau o drawsblaniadau meinweoedd. Efallai yr hoffai'r bobl sy'n gysylltiedig â'r achos gyfnewid llythyrau diolch neu ddymuniadau gorau'n ddiennw, ac mae hynny'n rhywbeth y gall y nyrsys sy'n arbenigo mewn rhoi organau ei drefnu, ac mewn rhai achosion mae teuluoedd rhoddwyr a derbynwyr wedi cyfathrebu'n rheolaidd ac yn y diwedd wedi trefnu i gwrdd.

Organau ar gyfer ymchwil

A allai organau a meinweoedd sy'n cael eu tynnu ar gyfer eu trawsblannu gael eu defnyddio i ddibenion ymchwil?

Gallant, gall organau neu feinweoedd sydd wedi cael eu tynnu i gael eu trawsblannu, ond a ganfuwyd wedyn nad oeddent yn addas i'w trawsblannu, gael eu defnyddio ar gyfer ymchwil, ond dim ond os yw'r teulu'n rhoi cydsyniad neu'n awdurdodi hynny. Mae galluogi'r organau hyn i gael eu defnyddio i ddibenion ymchwil yn golygu nad yw'r rhodd werthfawr hon yn cael ei gwastraffu ac y gellir ei defnyddio i helpu llawer o bobl eraill trwy ymchwil. Mae pob astudiaeth ymchwil sy'n cael organau neu feinweoedd gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gorfod cydymffurfio â threfniadau cymeradwyo caeth cyn y gall hynny ddigwydd.

A allaf fi adael fy nghorff i addysg feddygol neu ymchwil ar ôl i mi roi fy organau?

Gellir rhoi organau a meinweoedd i ddibenion ymchwil os yw organau a meinweoedd eraill yn cael eu cymryd i'w trawsblannu. Ni wneir hyn heb gydsyniad penodol. Fodd bynnag, ni dderbynnir cyrff i ddibenion addysgu os yw organau wedi'u rhoi neu os oes archwiliad post-mortem wedi'i gynnal. Os ydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ewch i www.hta.gov.uk/donating-your-body ar gyfer y cyngor a'r arweiniad diweddaraf gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, neu os ydych chi'n byw yn yr Alban, ewch i www.gov.scot/Topics/Health/Policy/BurialsCremation/BodyDonation

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am roddion corff cyfan i ddibenion ymchwil neu archwiliadau anatomegol, cysylltwch â'r sefydliadau canlynol;

Cymru a Lloegr:

The Human Tissue Authority

151 Buckingham Palace Road
Victoria,
London
SW1W 9SZ
Tel: 020 7269 1988
Email: enquiries@hta.gov.uk

Gogledd Iwerddon:

The Department of Anatomy Queen's University Belfast Medical Biology Centre

97 Lisburn Road
Belfast
BT9 7BL
Tel: 028 9097 2131

Yr Alban:

Cysylltwch â'ch ysgol feddygol agosaf:

Aberdeen: Department of Anatomy, University of Aberdeen
Tel: 01224 274 320 / 01224 272 000

Dundee: College of Life Sciences, University of Dundee
Tel: 01382 388 825

Caeredin: Department of Biomedical Sciences, University of Edinburgh
Tel: 0131 650 2997 / 0131 650 8318

Glasgow: The Anatomy Department, University of Glasgow
Tel: 0141 330 4296 / 0141 339 8855

St Andrews: Department of Anatomy, University of St Andrews
Tel: 01334 463 601

Rhoi gwaed

Mi hoffwn roi gwaed, beth ddylwn i ei wneud?

Mae gwaed a roddir yn rhodd werthfawr dros ben i bobl sydd ei angen mewn argyfwng neu ar gyfer triniaeth feddygol. Gall bron pawb rhwng 17 a 66 oed (neu 70 os ydych chi wedi rhoi gwaed yn y ddwy flynedd diwethaf), sy'n iach yn gyffredinol ac sy'n pwysu rhwng 50kg a 160kg, roi gwaed.

FAm ragor o wybodaeth neu i drefnu apwyntiad i roi gwaed, ewch i www.blood.co.uk neu cysylltwch â **0300 123 23 23** (os ydych chi'n byw yn Lloegr).

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, cysylltwch â Gwasanaeth Gwaed Cymru yn www.welsh-blood.org.uk (Saesneg) www.welsh-blood.org.uk/cy (Cymraeg) neu ffoniwch **0800 25 22 66**.

Os ydych chi'n byw yn yr Alban, cysylltwch â'r Scottish National Blood Transfusion Service yn www.scotblood.co.uk or call **0345 90 90 999**.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Northern Ireland Blood Transfusion Service yn www.nibts.hscni.net neu ffoniwch **028 9032 1414**.

Rhoi bôn-gelloedd

Beth yw rhoi bôn-gelloedd?

Mae bôn-gelloedd yn gelloedd arbennig sy'n cael eu cynhyrchu gan fêr yr esgyrn (y meinwe meddwl sydd yng nghanol rhai o esgyrn eich corff) sy'n gallu troi'n wahanol fathau o gelloedd gwaed. Mae hyn yn golygu y gellir eu defnyddio i drin amryw i ganserau ac anhwylderau'r gwaed. I rai cleifion, trawsblaniad bôn-gelloedd, sydd hefyd yn cael ei alw'n drawsblaniad mêr yr esgyrn, yw eu hunig obaith o oroesi.

Sut wyf yn cofrestru i roi bôn-gelloedd?

Os ydych chi rhwng 18 a 40 oed (bydd angen i chi gofrestru cyn eich pen blwydd yn 41 oed), yn ddyn ac yn rhoddwr gwaed, ystyriwch ymuno y tro nesaf y byddwch yn rhoi gwaed. Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan fenywod 17-40 oed sydd o gefndir Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig ac ethnig cymysg. I ymuno, dywedwch wrth y staff y tro nesaf y byddwch yn rhoi gwaed.

Rydym yn defnyddio'r meini prawf hyn i dargedu rhoddwyr sy'n brin ar Gofrestrfa Rhoi Mêr Esgyrn Prydain. Mae ein rhoddwyr i gyd ar gael pan fydd meddygon yn chwilio am roddwyr posibl ar gyfer cleifion ledled y byd.

I'r rhai hynny sy'n dymuno bod yn rhoddwr bôn-gelloedd ac nad ydynt yn cyd-fynd â'n meini prawf recriwtio, mae cyfleoedd ar gael o hyd i ymuno ag un o'n partneriaid eraill yn y DU; naill ai Anthony Nolan neu DKMS (Canser Gwaed y DU gynt). Gall rhoddwyr yng Nghymru ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru). Noder mai dim ond ag un gofrestr yn y DU mae angen i chi ymuno gan ein bod yn rhannu eich gwybodaeth baru'n ddienw).

Os ydych chi'n byw yn Lloegr, gallwch ymuno â'r gofrestr y tro nesaf y byddwch yn rhoi gwaed, neu ar yr un pryd â'ch rhodd gyntaf. Byddwn yn gwirio nad oes rheswm meddygol pam na allwch fod yn rhoddwr gwaed a rhoddwr bôn-gelloedd. Pan fyddwch yn rhoi gwaed, byddwn yn cymryd sampl ychwanegol o waed, a byddwn wedyn yn gallu canfod eich math o feinwe o'ch DNA (y deunydd genetig mae'n cyrff wedi'i wneud ohono). Rhowch wybod i'r staff yn y sesiwn rhoi gwaed eich bod yn dymuno ymuno â Chofrestrfa Rhoi Mêr Esgyrn Prydain cyn iddynt gymryd eich gwaed.

Beth yw Cofrestrfa Rhoi Mêr Esgyrn Prydain?

Mae Cofrestrfa Rhoi Mêr Esgyrn Prydain (BBMR) yn rhan o Waed a Thrawsblaniadau'r GIG, sy'n gweithio mewn cydweithrediad â chofrestrï rhoi mêr esgyrn / gwaed eraill y DU a Banc Gwaed y Brych y GIG.

Gellir rhoi bôn-gelloedd o waed y brych mewn ysbytai arbenigol sy'n rhan o'r GIG. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.nhsbt.nhs.uk/cordblood.

Mae'r BBMR yn cadw manylion am roddwyr bôn-gelloedd a rhoddion gwaed y brych o bob rhan o'r DU. Mae'n gyfrifol am recriwtio, profi a chofrestru rhoddwyr gwaed sy'n gwirfoddoli i fod yn rhoddwyr bôn-gelloedd. Mae hefyd yn rhan o rwydwaith rhyngwladol, sy'n chwilio ym mhob rhan o'r byd i ddod o hyd i roddwyr bôn-gelloedd addas.

Sut allaf fi gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i www.nhsbt.nhs.uk/cordblood neu ffoniwch **0300 123 23 23** (os ydych chi'n byw yn Lloegr).

Os ydych chi'n byw yng Nghymru cysylltwch â Chofrestr Rhoi Mêr Esgyrn Cymru yn

www.welshblood.org.uk (Saesneg) www.welsh-blood.org.uk/cy (Cymraeg) neu ffoniwch **0800 371 502**.

Os ydych chi'n byw yn yr Alban, ewch i wefan yr Anthony Nolan Trust yn www.anthonynolan.org/.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Northern Ireland Blood Transfusion Service yn www.nibts.hscni.net neu ffoniwch **028 9032 1414**.

NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG)

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn achub ac yn gwella bywydau trwy ddarparu cyflenwad diogel, dibynadwy ac effeithlon o waed a gwasanaethau cysylltiedig i'r GIG yn Lloegr. Ni yw'r sefydliad rhoddwyr organau yn y DU ac rydym yn gyfrifol am baru a dyrannu organau a roddwyd. Rydym yn dibynnu ar filoedd o aelodau sy'n gwirfoddoli i roi eu gwaed, organau, meinweoedd a bôn-gelloedd.

Am ragor o wybodaeth ewch i nhsbt.nhs.uk

E-bost enquiries@nhsbt.nhs.uk

Ffoniwch 0300 123 23 23